

papur



priordy



**T'WYSOG BYWYD PUR YN MARW -
MARW I BRYNU'N BYWYD NI.**

Caneuon Ffydd: 205

*Dewiswyd gan Y Parchedig Rosan Saunders
Gweler y rheswm am y dewis y tu mewn*

**Rhifyn 322
PAPUR MAI 2019**

Y Gweinidog ar daith...

Clogyn

DINAS bryderth Salzburg, Awstria oedd cyrchfan ein pererindod teuluol wedi'r Pasg, a dinas brydferth yw hi hefyd.

Ond yng nghanol prydferthwch yr adeiladau, y gerddoriaeth stryd a'r bobl yn eu gwisgoedd traddodiadol lliwgar, pwy oedd hwn (neu hon) a eisteddai'n ddigon swrth dafliaid carreg o fynedfa ysblennydd Eglwys San Pedr?

Cerflun yn portreadu person diwyneb mewn clogyn.

Dyma geisio darganfod mwy amdano a dysgu nad y cerflun hwn yn Salzburg yw'r unig un o'i fath a bod fersiynau gwahanol ohono mewn mannau gwahanol ar draws Ewrop.



Yn wir, ymddangosodd y clogyn a elwir gan rai'n '*Glogyn Cydwybod*' mewn paentiad o'r enw '*To be or not to be*' gan yr artist a'r cerflunydd Anna Chromy yn 1980. Ysbrydolwyd yr artist gan ddrama *Jedermann* gan Hugo von Hofmannsthal a *Don Giovanni* gan Mozart.

One mae'r '*Clogyn diwyneb*' wedi cario sawl enw gwahanol. Ei enw ger y gadeirlan yn Salzburg yw Pietà a chaiff ei adnabod fel '*Clogyn Heddwch*.' Mae cerflun tebyg y tu allan i'r tŷ opera yn Prague lle perfformiwyd *Don Giovanni* am y tro cyntaf, a'i enw yn y fan honno yw '*commendatore*'.

Ar ynys Sylt yng ngogledd yr Almaen, lle mae cerflun tebyg y tu allan i Eglwys St Severin yn Keitum, fe'i gelwir yn '*Glogyn*'

cydwybod', ac felly hefyd y feriswn ohono sydd yn yr ardd ym Mhalas Brenhinol Monaco, lle byddai Grace Kelly yn mynd i ddarllen bob prynhawn. Mae gan y tenor Eidalaidd [Andrea Bocelli](#) a'r Pab fersiwn lai o'r cerlfun hwn yn eu cartrefi.

Clogyn cydwybod neu glogyn heddwch - mae'r ddau enw'n awgrymog iawn.

Beth yw cydwybod? Onid yw Duw'n siarad â ni drwy'n cydwybod?

Beth yw arwyddocâd y clogyn? Ai ei bwrpas yw'n cuddio ni o'r golwg, neu'n hannog i lapio eraill oddi mewn i'n clogyn?

Y clogyn diwyneb? Pam heb wyneb? Ai'n hwyneb ni sy'n eisïau, neu wynebau eraill? Os felly, pwy?

Clogyn heddwch? Oni roddodd Sant Ffransis ei glogyn i berson tlawd ar ffin y ffordd?

Dyna'r cwestiynau sydd wedi bod yn troi yn fy meddwl ers gweld y cerlfyn hwn y tu allan i Eglwys Sant Pedr, Salzburg.

BETH sy'n mynd drwy'ch meddwl chi o weld y cerfllyn tybed?

Gweddïwn

Diolch i Ti Arglwydd dy fod yn siarad â ni mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys drwy gelfyddyd gain.

Diolch am y dwylo sy'n creu,
a'r dychymyg sy'n llunio.

Diolch am synhwyrâu i werthfawrogi,
am galon yn grud i'n hemosiynau,
ac am gydwybod i'n procio.

Cymorth ni i ymateb i bob cyfle a gawn
i glywed dy lais Di.

Yn enw Iesu Grist

Amen



PASG YR OFALAETH

Nos Iau Cablyd

Ymunodd rhai o'n haelodau a'r gynulleidfa yn y Tabernacl ar gyfer yr Oedfa Gymun dan ofal y Parchedig Peter Cutts. Bu'n gyfle da i ogwyddo'r meddwl tua'r Groglith a'r Pasg.



Bore Gwener y Groglith

Roedd cynrychiolaeth o'r Priordy'n



bresennol yn Oedfa'r Groglith yn y Tabernacl gyda'r Parchedig John Talfryn Jones, Rhydaman, yn bregethwr gwadd Yna, ymunodd rhai o Gristnogion yr ardal i gerdded drwy ganol y dref mewn distawrwydd llwyr yn dyst i ddigwyddiadau Gwener y Groglith cyntaf ar ôl paned i ddechrau yn y Capel Wesle, Gorffennwyd gyda gweddi yn yr ardd ar gornel Stryd Ioan.

Prynhawn Gwener y Groglith

Ar brynhawn hynod o heulog a Dyffryn Tywi ar ei harddaf, denodd ein Pererindod blynyddol ar brynhawn y Groglith nifer da iawn o deuluoedd yr Ofalaeth ac ar draws yr enwadau yn nhref Caerfyrddin. Ar ôl gair o weddi ym maes parcio Canolfan Bryn Myrddin yn Abergwili dyma fentro arni i gopa'r bryn. Diolch i Lyn Jones (Bancyfelin) am baratoi'r Groes ac i Jac a Morgan am ei chludo. Wedi cyrraedd y copa a gosod y groes bren yno, cynhaliwyd gwasanaeth byr am dri o'r gloch i gofio am farwolaeth Iesu ar Fryn Calfaria.



Cymerwyd rhan gan y Parchedigion Beti-Wyn, Peter Cutts, Emyr Gwyn Evans ac Ainsley Griffiths. Cyfeiriodd ein Gweinidog yn ei myfyrdod at y modd y cawsom ein syfrdanu rai dyddiau'n gynharach gan y tân anferth yng Nghadeirlan Notre Dame ym Mharis. Ond nid oedd y fflamau'n ddigon cryf i ddifa'r Groes bres yn yr eglwys honno na'i hatal rhag disgleirio yng nghanol y difrod. A pharhau i sefyll mae Croes Iesu sy'n symbol o Gristnogaeth ac yn cynnig gobaith newydd i ni i gyd. I ddiweddu'n gwasanaeth canwyd *Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb* ar y dôn Bryn

Myrddin i'n hatgoffa o aberth Iesu ar Fryn Calfaria.

Yn ôl yn y Ganolfan ar ddiwedd y daith, mwynhawyd paned a theisen ê'n gilydd. Talwyd y diolchiadau gan Sulwyn Thomas, Llywydd Swyddogion yr Ofalaeth, a nododd fel mae'r digwyddiad arbennig hwn yn cydio ac yn ehangu yn ei apêl o flwyddyn i flwyddyn.


Bore Sul y Pasg

Cawsom ein hannog gan ein Gweinidog yn ei neges i dorri'n rhydd o ffordd y byd hwn a bod yn bobl y Pasg mewn Groglith o fyd, costied a gostio, yn Oedfa'r Ofalaeth ar fore'r Trydydd Dydd.



Wrth i ni ddod i'r capel, yna'n ein disgwyl ger y fynedfa roedd y Groes wag yn arwydd fod Iesu'n fyw ac wedi torri trwy blisgyn neu fasgl marwolaeth a dod â bywyd newydd i bob un ohonom.

Ar fore bendigedig o braf roedd cynulleidfia gref wedi dod ynghyd i glywed y newyddion da. Disgrifiwyd y Sul hwn fel Sul y Torri'n Rhydd gan ein Gweinidog. Bwriedir yr wy i'w dori er mwyn datgelu'r hyn sydd yno. Mae'n symbol pwerus o'r ffordd y torrodd Iesu'n rhydd o garchar nerthol marwolaeth ar adeg y Pasg – yr Ŵyl bwysicaf yn y Calendr Gristnogol.



Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan Rachael Garside (Cana), Carys Morgans (Y Priordy) a Trefina Jones (Bancyfelin). Y casglyddion oedd Ifan, Tomos, Mac, Jac, Heledd a Madog. Wrth yr organ roedd Heather Williams a Chris Lloyd fu'n cyhoeddi.

Yn ystod y Cymun mynegodd ein Gweinidog ein cydymdeimlad â theuluoedd yr Ofalaeth a brofodd golledion yn ddiweddar. Cafodd ei chynorthwyo i rannu'r elfennau gan Edward Jones (Cana) Lyn Jones (Bancyfelin), Wyn Tegryn Evans a Philip Jones (Y Priordy). Wrth rannu elfennau'r bara a'r gwin cawsom ein swyno gan ddatganiadau hudolus y ddeuawd Elin Wyn a Sioned Beynon yn canu '*O aros gyda mi, y mae'n hwyrhau ac 'O Llefara Addfwyn Iesu* gyda Heather Williams yn cyfeilio. Hyfryd hefyd oedd derbyn aelod i'r Priordy, sef Huw Morgans, gŵr Carys a thad Tomos Huw, Ifan Noa a Cadi Fflur, yn ein Hysgol Sul.

Wedi'r Cymun, aeth y plant i'r Ffestri lle roedd Helfa Wyau Pasg


wedi'u paratoi ar eu cyfer. Roeddent eisoes wedi derbyn llyfr lliwio wedi'i lunio'n benodol ar gyfer y Pasg. Adawodd yr oedolion mo'r capel yn waglaw ychwaith gan i bob un ohonom dderbyn wy bach siocled blasus!

Ac wrth ddod i mewn i'r capel a dod allan ohono roeddem yn ymwybodol iawn fod y dydd pwysig hwn yn hanes y Ffydd Gristnogol yn ddiwrnod arbennig hefyd i Beti-Wyn – diwrnod ei phen-blwydd a hithau'n cyrraedd carreg filltir nodedig yn ei bywyd. Ar reiliau blaen y capel roedd murlun hynod o gain a balwnau i ddymuno pen-blwydd hapus iddi. Roedd mor gelfydd fel na chafodd yr un o'r Priorddy ei gyhuddo o fod yn gyfrifol amdano! Mae yna si mai saer coed o fri o Fancycelin a fu wrthi yn y dirgel lyw nos!



Prynhawn Sul y Pasg

Ymgasglodd tyrfa fawr ar gyfer Oedfa'r Gymuned ym Mancyfelin, gan ddechrau ger mynedfa'r Wenallt, oedi y tu allan i'r ysgol ac ar sgwâr y pentref cyn diweddu yn y capel. Ar hyd y daith ac yn y capel ei hunan buom yn cyd-ganu, gwranddo ar ddarlleniadau o'r Beibl ac yn cyd-weddio i ddathlu'r diwrnod arbennig hwn. Pan ymddangosodd Iesu i'r disgyblion wedi'r atgyfodiad daeth atynt a sefyll yn y canol. A'n braint ni, fel y mynegodd ein Gweinidog yn ei myfyrdod, yw gosod y Crist Atgyfodedig yng nghanol ein bywyd heddiw. Fe'n unig sy'n gallu'n hysbrydoli a'n nerthu a'n llanw â llawenydd a gobaith newydd.



Yn cymryd rhan yn yr oedfa bu Rhys Thomas, Bethan Thomas, Emyr Waters, Marlene Jones a Gwawr Waters. Roedd Margaret Evans wrth yr organ a'r Dr Eirian Thomas yn cyhoeddi.

Ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben, cawsom brawf ar glip fidio fod Beti-Wyn wedi dod i ben â'r Sip ym Mlaenau Ffestiniog ond doedd dim sôn am lestri te na byns y Grog! Tybed pam? Wel, esboniodd Sulwyn Thomas fod parti wedi'i drefnu yn Neuadd Bancyfelin i ddathlu pen-blwydd arbennig ein Gweinidog a bant â ni yno'n llawn cywreinrwydd.

Neuadd Bancyfelin

O fewn dim amser roedd y Neuadd dan ei sang a'r byrddau wedi'u harddu a balwnau coch gyda rhifau arbennig arnynt yn cyhwfan yn y canol!

Dechreuodd y parti ar uchafbwynt, gyda'r ddeuawd enwog Sulwyn Thomas a Peter Hughes Griffiths yn canu penillion i gyfarch ein Gweinidog a Meinir Lloyd yn cyfeilio ar y piano. Hyd yn oed cyn iddynt orffen yn llwyr daeth galwadau cryf gan y gynulleidfa am encôr ac, yn ffodus, roedd ganddynt stôr o benillion wrth gefn! Roedd y rhain wedi'u cyfansoddi gan Peter sydd, wrth gwrs, yn hen law a meistr ar y grefft hon. Maent wedi'u cynnwys yn y papur hwn. fel y gallwch eu darllen yn hamddenol!

Daeth yn amser wedyn i ni fwynhau'r bwyd a diolch i Gegin Fach y Wlad am y wledd mor flasus..

Cyflwynwyd anrheg ben-blwydd i'r Gweinidog ac englyn addas dros ben wedi'i fframio o waith y Prifardd Tudur Dylan Jones, aelod yn y Priordy::

I Beti-Wyn yn 50

**Oedi ni wna'r degawdau – hyd y daith,
mynd o hyd wna'r oriau,
ond o raid mae'r enaid iau
yn rhy ifanc i rifau.**

A rhaid oedd cael cacen pen-blwydd. Fe'i torrwyd gan Beti-Wyn a chafodd pob un ohonom flasu darn ohoni.

Dywedodd Beti-Wyn air bach o ddiolch ar y diwedd cyn i bawb fynd adref yn llawen dros ben ar ôl diwrnod mor llawn a bendithiol. Mae'n diolch yn fawr i bawb a fu'n trefnu ym mhob rhyw fodd ac i Sulwyn Thomas, Llywydd Swyddogion yr Ofalaeth, am arwain y gweithgareddau yn y Neuadd mor ddeheuig.



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)



PEN-BLWYDD HAPUS BETI-WYN!



Fe ddymunwn Ben-blwydd Hapus
le, i un arbennig iawn
Gyda'n gilydd mewn te parti
A chyd-ddathlu drwy'r prynhawn.

Un o ferched glân Cwm Tawe
Yw ein hannwyl Beti-Wyn,
Ac mor falch mae hi o'i gwreiddie –
Braf ei chanmol hi am hyn.

Hanner cant – ein llongyfarchion
A gyhoeddwn yn gytûn,
Er yn rhannu'r dydd 'da Leisa,
I ni yma – hi yw'r Cwin.

Capel Cana a Bancyfelin
A'r Priordy yw ei phlwy'
A'i chyfraniad cymunedol
Sydd yn llawer, llawer mwy.

Paratoi ei holl bregethe
Gyda'i negeseuon clir,
Dweud ei dweud mewn ugen munud
Ar y dot bob tro, mae'n wir!

Mae ei thŷ yn llawn cadeirie
Ac mae rheini yn rhai hardd,
Gyda ni mae'n cynganeddu –
Beti-Wyn yw ein Prifardd.

Mae bob amser wrthi'n trefnu
Yn y wlad ac yn y dre'
Trefnu, trefnu pob manylyn –
Rhaid cael popeth yn ei le.

Denu'r plant a'r bobl ifenc
Rhoi arweiniad trwy ein bro,
Gyda'i doniau cyfathrebu
Gyda'i neges glir bob tro.

A'r prynhawn 'ma gyda'n gilydd
Dewch, cyd-ddathlwn gyda hyn,
Gwaeddwn nawr ein dymuniadau -
PEN-BLWYDD HAPUS BETI- WYN .

Encôr

Nid oes debyg iddi Nghymru,
Twitter, Facebook – peidwch sôn!
Hoffen ni a phawb gael gwybod
Beth yn wir yw bil ei ffon.

Pwy sy'n cael y sylw mwyaf
Gyda hon? Wel credwch ni.
Mynd am dro, a'r holl faldodi,
Dyna gaiff Llew Bach y ci!

A'r prynhawn 'ma gyda'n gilydd
Dewch, cyd-ddathlwn gyda hyn,
Gwaeddwn eto'n dymuniadau -
PEN-BLWYDD HAPUS BETI-WYN.

Peter Hughes Griffiths



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

JOHN A MAIR MEREDITH

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

DIOLCH PEN-BLWYDD

Diolch i bawb a sicrhodd bod fy mhen blwydd yn hanner cant yn achlysur i'w gofio! Diolch yn fawr iawn am y parti yn neuadd Bancyfelin a ddaeth fel cymaint o sypreis fel fy mod yn fud! Llongyfarchiadau am gadw'r cwbl yn dawel! Rhyfeddol! Diolch hefyd am y rhodd hael.

O ddifri, mae fy ngwerthfawrogiad o'r llu o gyfarchion a dderbyniais a'r caredigrwydd mawr a ddangoswyd tuag ataf ar achlysur fy mhen-blwydd y tu hwnt i'm gallu i'w osod yn iawn mewn geiriau.

Felly, diolch yn ddiffuant iawn i chi gyd. Bydd y diwrnod yn aros yn y cof am byth.

Beti-Wyn



DIOLCH AM NAWDD

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig i'm noddi i deithio ar hyd y Weiren Sip ym Mlaenau Ffestiniog. Bu'n brofiad ardderchog! Codwyd dros £1700 at Apêl Madagascar sydd y tu hwnt i bob disgwyl. Diolch yn fawr iawn.

Beti-Wyn

CASGLIAD AT Y COLEG

Codwyd £100 yn y casgliad rhydd at Goleg yr Annibynwyr Cymraeg ar Ddydd Sul 31 Mawrth 2019. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.



CWIS MAI

Mae pob ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'M'



Mae'r atebion i gyd yn y Beibl

1	M						
2	M						
3	M						
4	M						
5	M						

Cliwiau

1	Cyffelybir teyrnas nefoedd gan yr Arglwydd i ronyn o had hwn (Mathew 13:31)
2	Un o'r adar aflan dan gyfraith Moses (Lefiticus 11,17)
3	Llysieuyn. Un o'r pethau mân a drethai'r Iddewon i'r deml (Mathew 23:23)
4	Tref yn anialwch Juda (Josua 15:61)
5	Enw'r mynydd y galwyd Abraham i aberthu Isaac arno (Genesis 22:2)

***Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!
Atebion yn y rhifyn nesaf***

ATEBION CWIS EBRILL

1. Ebeneser 2 Efrau 3 Eiriol 4 Eurych 5 Efengylwr

MENTRAU LLWYDDIANNUS CODI ARIAN AT APÊL MADAGASGAR

BORE COFFI YN Y PRIORDY.....gyda PIP ac eraill yn codi £580



**Y SIP YM MLAENAU
FFESTINIOG
Ein Gweinidog yn cofi £1700+**



Dr Huw Michael...

Newid hinsawdd - I

Y gyntaf o dair erthygl yn ymwneud â'r pwnc pwysig hwn.

Cefndir

Dywedir fod yr hinsawdd yn newid a bod hyn oherwydd cynnydd yn yr "effaith tŷ gwydr". Mae rhyw gyfeiriad at newid yr hinsawdd ar ein radio a theledu bron yn ddyddiol erbyn hyn, yn aml iawn yng nghyswllt rhyw storm sydd newydd ddigwydd, neu leihad yn yr haenen iâ sydd yn effeithio ar fywyd gwyllt (megis eirth gwynion), neu gyfnod o dywydd twym anarferol.



Pa dystiolaeth sydd fod yr hinsawdd yn newid?

Rydyn ni i gyd wedi teimlo i raddau, mae'n siŵr, fod yr hafau wedi bod ryw faint yn gynhesach yn y degawd diwethaf a'r gaeafau'n llai oer ar gyfartaledd. Ond ydy'r data'n cefnogi'r teimlad goddrychol hwn?


Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) wedi dweud fod y sylwadau canlynol yn dystiolaeth fod hinsawdd y byd yn newid:

- Digwyddodd 11 o'r 12 blwyddyn gynhesaf er 1850 rhwng 1996 a 2006. Mae tymeredd byd-eang ar gyfartaledd wedi cynhesu tua 0.74 °C rhwng 1906 a 2005. Mae'r cynnydd i'w weld dros y byd cyfan ond mae'n fwy amlwg yn hemisffer y gogledd.
- Mae lefelau'r môr hefyd wedi codi yn y cyfnod yma. Er 1993 maent wedi codi 3.1 mm y flwyddyn ar gyfartaledd. Dros gyfnod yr 20fed ganrif cododd lefel y môr tua 0.17m.
- Mae maint yr anwedd dŵr sydd i'w gael yn yr atmosffer wedi codi ers y 1980au dros y tir a'r môr, ac mae hyn yn gyson â'r ffaith fod awyr cynhesach yn gallu dal mwy o ddŵr nag awyr oer.
- Mae rhewlifoedd ar y mynyddoedd wedi lleihau ar gyfartaledd. Mae'r lleihad helaeth ym maint y rhewlifoedd a'r taflenni iâ wedi cyfrannu at y cynnydd yn lefel y môr. Mae data lloerennau er 1978 yn dangos lleihad o 2.7% bob degawd ym maint y daflen

iâ, er bod y lleihad yn nhymor yr haf wedi bod yn fwy na hyn (7.4% ar gyfartaledd).

Beth yw'r effaith tŷ gwydr?

Yr effaith tŷ gwydr yw'r hyn sy'n digwydd pan fo nwyon penodedig yn atmosffer y Ddaear yn gadael i ddigon o wres yr haul gyrraedd y Ddaear ond yn cadw gwres y Ddaear rhag dianc yn ormodol i'r gofod. Mae hyn yn gwneud y Ddaear yn gynhesach na fyddai heb atmosffer. Yr Effaith Tŷ Gwydr yw un o'r ffactorau sy'n gwneud y Ddaear yn lle cyfforddus i fyw ynddi.. Heb yr Effaith Tŷ Gwydr byddai tymheredd y Ddaear ar gyfartaledd yn cwmpo o 14 °C i -18 °C. h.y. byddai'n llawer rhy oer i gynnal bywyd. Dau o'r nwyon tŷ gwydr pwysicaf yw CO₂ (Deuocsid Carbon) a CH₄ (Methan), ac mae'r rhain yn bodoli'n naturiol yn yr atmosffer. Mae creaduriaid (yn cynnwys y ni wrth gwrs) yn anadlu CO₂ mas gyda phob anadl; mae methan yn cael ei ryddhau o dir corsiog a gan anifeiliaid fferm, a llosgfynyddoedd yn rhyddhau amryw o nwyon tŷ gwydr. Yn ogystal, mae planhigion a choed yn tynnu CO₂ o'r atmosffer trwy broses ffotosynthesis. Felly, effaith cwbl naturiol, a hanfodol, yw'r effaith tŷ gwydr.



Sut mae nwyon tŷ gwydr yn gweithio?

Mae natur moleciwlau nwyon tŷ gwydr yn peri iddynt amsugno gwres ac yn raddol ei ymbelydru i foleciwlau eraill. Mae peth o'r gwres hwn yn cael yr effaith o gynhesu'r ddaear. Mae'r nwyon tŷ gwydr yn cael effaith tebyg i "flanced" dros y ddaear - yn cadw mwy o wres yr haul yn y Ddaear.

Cynydd yn yr Effaith Tŷ Gwydr

Mae crynodiad (lefelau/ concentration) deuocsid carbon (CO₂) yn yr atmosffer wedi cynyddu o 300 ppm (parts per million/ rhannau mewn miliwn) yn y flwyddyn 1910 i dros 400 ppm heddiw, ac mae wedi cynyddu 20% er 1970. Mae hyn wedi cyd-ddigwydd tra bo allyriadau deuocsid carbon o ganlyniad i losgi tanwydd ffosil (olew/nwy/glo/ coed) wedi cynyddu a thra bo coedwigoedd helaeth wedi cael eu torri i lawr sy'n golygu bod llai o ddeuocsid carbon yn cael ei sugno o'r awyr. Mae

hyn wedi cynyddu'r effaith tŷ gwydr. Sut ydyn ni'n gwybod bod cynnydd yn effaith y tŷ gwydr yn gyfrifol am y newid hinsawdd (h.y.. cynnydd yn nhymheredd y byd)? Ar yr wyneb dyw cynnydd o 100 ppm (0.01%) yng nghrynodiad CO₂ ddim yn ymddangos yn sylweddol iawn, ac mae rhai'n ei chael hi'n anodd derbyn taw hyn sy'n gyfrifol am newid yr hinsawdd.

Wedi'r cyfan gallai ystyriaethau eraill fod yn cyfrannu at newid yr hinsawdd (e.e. cynnydd yn yr ymbelydredd o'r haul, a/ neu esblygiad naturiol a ddechreuodd gannoedd o flynyddoedd yn ôl (medd rhai)).

Mae modelau cymhleth wedi'u datblygu gan wyddonwyr yr hinsawdd sydd wedi'u profi trwy ailgynhyrchu'r newidiadau yn yr hinsawdd rydyn ni wedi'ui gweld hyd yn hyn. Ar sail hyn, y tebygrwydd yw bod y modelau hyn yn ddibynadwy ar gyfer rhagweld newidiadau'r dyfodol yn ogystal. Canlyniad y modelu hyn yw ei bod yn hynod debygol fod gweithgareddau dynol (defnydd o danwydd ffosil, datgoedwigo, anifeiliaid fferm) yn cyfrannu at y newid hinsawdd sy'n digwydd.

Gweithredu Rhyngwladol

Felly, mae'r mwyafrif o wyddonwyr sy'n hyddysg yn y testun yn credu fod cysylltiad uniongyrchol rhwng allyriadau (*emissions*) CO₂ yn deillio o losgi tanwydd ffosil / datgoedwigo a'r newid yn yr hinsawdd. Er nad oes sicrwydd taw allyriadau CO₂ o weithgaredd dynol yw'r prif reswm am y newid yn yr hinsawdd, mae mwyafrif helaeth llywodraethau gwledydd y byd yn derbyn y cysylltiad (UDA a Brasil ddim, eto) ac yn barod i weithredu. Gan ei bod yn her fyd-eang mae cydweithio rhyngwladol yn hanfodol i fynd i'r afael â'r problem.

Ffurfiwyd Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC) ym 1992 gyda'r nod o sefydlogi crynodiad nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer ar lefel na fyddai'n ymyrryd â system yr hinsawdd. Mae'r gwledydd sy'n aelodau o'r fframwaith yma wedi cyfarfod bob blwyddyn ers hynny. Cytunwyd ar Brotocol Kyoto ym 1997 a oedd yn ymrwymo gwledydd datblygedig i leihau eu allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y cyfnod 2008-2012 i ddechrau. Yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yn 2010



cytunwyd y dylid anelu at gyfyngu'r cynnydd yn nymheredd y byd i lai na 2.0 °C (3.6 °F) o gymharu â'r lefel cyn y cyfnod diwydiannol.

Diwygiwyd y Protocol yn 2012 i gynnwys y cyfnod o 2013 hyd 2020 yn Niwygiad Doha. Yn 2015 derbyniwyd Cytundeb Paris i reoli'r gostyngiad mewn allyriadau diocsid carbon o 2020 ymlaen. Cytunwyd ar broses wedi'i seilio ar Gyfraniadau wedi'u Pennu'n Genedlaethol (Nationally Determined Contributions) a gostyngwyd y targed o 2.0 °C i 1.5 °C. Daeth Cytundeb Paris i rym ar 4 Tachwedd 2016. Felly, mae pob gwlad sydd wedi arwyddo'r cytundeb hwn, yn gorfod cyhoeddi'i thargedau i leihau allyriadau CO₂ yn y cyfnod ar ôl y flwyddyn 2020, a dangos sut maen nhw'n cyrraedd y targedau hynny.



Fel y dywedais, problem fyd eang yw hon, a dyw ymdrechion un wlad fach fel y Deyrnas Unedig ddim yn gwneud llawer o argraff heblaw fod y gwledydd mawr fel UDA, India a Tsieina'n gwneud yr un ymdrechion.

Y mis nesaf cawn ystyried pa ymrwymïadau mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'u gwneud i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac i ba raddau mae'r wlad yn llwyddo yn hyn o beth, a pha gyfraniad y gallwn ni'i wneud fel unigolion a theuluoedd.



AR GAEL CYN BO HIR

Y TIR YSGYTHROG

gan

Y Parchedig Ddr Demond Davies

Cyhoeddiadau'r Gair

£8.99



Yn y gyfrol hon mae'r awdur yn crynhoi nifer o'i bregethau ac yn eu troi i fod yn wasanaethau cyflawn sy'n cynnwys darlenniadau a gweddïau. Mae yma hefyd gasgliad o emynau gwreiddiol ganddo.

GWASANAETH SUL Y BLODAU

14 Ebrill 2019



Roedd y Capel yn fwrlwm wrth i bawb gyrraedd ar fore braf Sul y Blodau. Cawsom ein swyno gan sain band y Priordy gydag Iwan yn arwain a Jayne, Gareth Gravelle, Gareth, Mared a Bryn yn cyfeilio.

Cawsom groeso twymgalon gan Beti-Wyn cyn i Beca a Luned gyhoeddi'r emyn cyntaf *Mae nghalon mor llon* (Caneuon Ffydd 401). Chris Lloyd oedd yn cyhoeddi ac arweiniodd hyn ymlaen yn bwrpasol at Beti-Wyn yn sôn drwy fideo am ei hymdrech i godi arian at Apêl Madagasgar a dathlu pen-blwydd arbennig drwy deithio i lawr wifren Sip ym Mlaenau Ffestiniog. Mae'n amlwg ei bod wedi bod yn ymarfer yn galed i feistroli techneg y wifren!

Gwnaed y casgliad gan Nansi, Annie, Greta a Madog, rhai o blant ieuengaf y Capel.

Cafodd y plant, y bobl ifainc a'r rhieni eu llongyfarch am eu gwaith diwyd yn y Bore Ccffi i godi arian at Apêl Madagasgar. Codwyd £580.00 at yr achos.

Tro'r bechgyn oedd hi nawr wrth i lestyn gyhoeddi'r emyn *Hosanna, Hosanna* (Caneuon Ffydd 273). Yna, cawsom ychydig o funudau i feddwl beth yw ystyr y Pasg drwy ddeialog a ddarllenwyd gan Tomos ac Ethan. Dywedodd Tomos fod y Pasg yn bwysig oherwydd ein bod yn derbyn llawer o siocledi yr adeg hwn o'r flwyddyn. Roedd Ethan yn cytuno ond y byddai yn rhaid canslo'r Pasg eleni oherwydd bod siocledi mor wael i'ch dannedd! Ar ôl pendroni am fymryn dywedodd Tomos fod mwy na hyn i stori'r Pasg. Cawsom ragarweiniad gan Jac Davies wrth iddo olrhain Stori'r Pasg



Wedi hyn, dosbarthwyd croesau palmwydd i bawb gan Elliw, Gwenan, Ethan a Iestyn. Cydweddiwyd gweddi'r Palmwydd ac yna Weddi'r Arglwydd.



Cawsom eitem gerddorol go arbennig wedyn, wrth i'r band taro, ymuno â Band y Priordy i gyfeilio i'r emyn *O'r fath geidwad Rhyfeddol* (Caneuon Ffydd 398). Roedd yn hyfryd gweld cynifer o blant bach yn perfformio mor frwydfrydig.

Ar ddechrau ei hanerchiad gofynnodd Beti-Wyn i'r plant pam maen nhw'n cael gwyliau'r adeg yma o'r flwyddyn Atebodd Nansi ein bod yn cofio Iesu a fu farw adeg y Pasg. Dangosodd Beti-Wyn groes o balmwydd i'r plant gan ddweud bod dail palmwydd a chotiau wedi'u doddi o flaen Iesu wrth iddo fynd i Jeriwsalem. Dangosodd hefyd lun o Iesu yn golchi traed y disgyblion a gwelsom lun o'r Swper Olaf. Dywedodd Luned fod y disgyblion wedi cael bara a gwin i swper. Aeth Beti-Wyn ymlaen i atgyfnerthu'r ffaith fod y Swper Olaf y noswaith cyn i Iesu gael ei groeshoelio. Gwelsom lun o Iesu ar y groes a llun o'r ogof a'r garreg a dywedodd Nansi eto fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw.

Aeth Beti-Wyn ymlaen i ofyn faint o'r plant oedd wedi gweld losin M & M's o'r blaen.



Buodd Beti-Wyn yn y siop M&M yn Lundain a rhyfeddu wrth weld y losin amryliw sydd yno. Caswom awgrymiadau difyr ynglŷn â faint o blant yn y Capel sydd ag enw'n dechrau gyda'r llythyren 'M'. Dangosodd Beti-Wyn lun M & M ar y sgrîn. Aeth ati i ddweud fod y llythyren 'M' ar bob un ohonynt.. Wrth droi'r losin o amgylch ceir symbolau a rhifau eraill.



E am Efengyl – Newyddion da amser y Pasg
achos fod Iesu yn fyw

	Tri – Y Trydydd Dydd daeth Iesu'n fyw
	M am Mawr. Mae Iesu yn berson mawr a Stori'r Pasg yn fawr a phwysig
	Wow! Pwysigrwydd Croesholiad Crist a phan gafodd Iesu ei atgyfodi

Bu'r plant wrthi'n brysur yn casglu darnau 20c i lenwi blychau Smarties ar gyfer codi arian at Apêl Madagascar. Tra oedd Iwan yn chwarae miwsig tawel daeth y plant ymlaen â'u blychau. Roedd pawb yn blês i dderbyn cwnigen siocled Pasg gan Beti-Wyn fel arwydd o ddiolch.



Croesawyd yr aelod ieuengaf i'r Capel, sef Martha chwaer Greta a hithau dim ond yn naw wythnos oed. Roedd hi mor ddiddig yng nghanol yr holl gyffro!

Diolch i Beti-Wyn am lunio gwasanaeth arbennig a hefyd i'r plant a'r band am eu gwaith caled. Braf oedd croesawu Bryn atom i gyfeilio ar y drymiau.

CASGLIAD Y BLYCHAU SMARTIES

Cyfanswm y bocsys Smarties at Apêl Madagascar oedd **£262.80**. Gwych iawn!. Diolch yn fawr iawn i blant a theuluoedd y Priordy am eu rhoddion ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon,



Yn y Papur ym misoedd Chwefror, Mawrth ac Ebrill, cyflwynwyd gwybodaeth am dri phrosiect a gefnogir gan Apêl yr Undeb, sef helpu Akany Avoko - canolfan breswyl i adfer ac ailhyfforddi merched ifanc, SAF - Meddygfa, Deintyddfa a Fferyllfa ac Addysg Amgylcheddol yng Ngholeg Coleg Diwinyddol Ivato. Y tro hwn rydym yn cyflwyno'r olaf o'r pedwar prosiect sy'n rhan o Apêl yr Undeb

Cartref Plant Topaza

'Nid cartref plant amddifad mo hwn. Mae'n un teulu mawr!'

Cartref plant ar ben un o fryniau Antananarivo yw Topaza sy'n cael ei redeg gan FJKM [Eglwys Iersu Grist ym Madagascar]. Mae wedi'i leoli yn un o hen adeiladau'r LMS [Cymdeithas Genhadol Llundain] a etifeddwyd gan FJKM. Mae'n adeilad braf, gyda 43 o blant, rhwng 2 fis a 22 mlwydd oed, yn byw yno, er bod lle i ragor petasai arian yn caniatáu. Gofelir am y plant gan dîm o 12 aelod staff, sy'n cael eu harwain gan Tantely XX, cyfarwyddwraig y cartref ers 2004.



Mae rhai yno'n blant amddifad, eraill yno am fod y llys wedi dyfarnu na all eu rhieni ofalu amdanynt, oherwydd problemau iechyd meddwl, ac mae nifer yn blant a adawyd gan eu rhieni.

Mae sefyllfa ariannol fregus FJKM yn golygu mai dim ond cyflenwadau bwyd achlysurol fydd y cartref yn eu derbyn ganddyn nhw. Mae Topaza'n dibynnu ar roddion gan unigolion, eglwysi a sefydliadau tramor i gadw'r cartref ar agor, ac mae nifer o'r plant yn cael eu noddi.

Gyda diffyg maeth yn broblem enfawr yn y wlad ac yn effeithio dros hanner y boblogaeth, mae sicrhau bod y plant yn Topaza yn cael digon o fwyd maethlon yn her.

Costau

Gofal i 1 plentyn am ddiwrnod: £1.10

CYFLWYNO SIEC AM £1000 I LYFRAU LLAFAR CYMRU



CROESAWU AELOD NEWYDD I'R PRIORDY



Gweler y Rhwydwaith





‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

**Boreau Mercher 12, 19, 26 Mehefin a 3 Gorffennaf 2019
11.00 tan 12.00**

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a’r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

Cynhelir

Te Mefus

er budd

Apêl Madagasgar, Undeb yr Annibynwyr

Prynhawn Sadwrn 18 Mai 2019

am 2 o’r gloch yn Festri Cana

Tocynnau £5 ar gael gan aelodau Cana

Croeso cynnes i bawb



CYFARFODYDD BLYNYDDOL YR OFALAETH



CANA

Nos Fercher, 8 Mai 2019 am 7

Y Parchedig Emyr Gwynn Evans

Swper i ddilyn

BANCYFELIN

Nos Iau, 23 Mai 2019 am 7

Y Parchedig Ddr R Alun Evans

Swper i ddilyn



Croeso cynnes i bawb



BROWNIS SIOCLED



DULL

Cynheswch y popty i 180oC / 350oF / Nwy 4.

Torrwch y siocled tywyll yn ddarnau. Rhowch nhw mewn powlen sy'n gwrthsefyll gwres a thoddwch nhw'n raddol mewn sosban o ddŵr sy'n berwi, gan sicrhau nad yw'r dŵr yn cyffwrdd gwaelod y bowlen. Tynnwch y bowlen oddi ar y gwres a gadewch y siocled i oeri nes bod ei angen.

Rhowch y menynd a'r siwgr mewn i bowlen cymysgydd bwyd a'u curo nes eu bod o liw golau ac yn ysgafn. Rhowch ychydig o'r wyau i mewn ar y tro, gan eu curo'n dda rhwng bob dogn. Cymysgwch y rhinflas fanila hefyd.

Rhowch lwydiau o'r siocled toddedig ar ben y cymysgedd a'i gymysgu'n drwyadl. Hidlwch y blawd a'r powdr coco mewn i'r cymysgedd a'i gymysgu'n raddol.

Wedi iddo gael ei gyfuno'n llwyr, rhowch lwydiau o'r cymysgedd mewn i'r tun pobi sgwar 15cm wedi'i iro a'i leinio a phapur gwrthsaim a'i daenu'n gytbwys.

Pobwch yn y popty poeth am tua 20 munud hyd nes bod y brownis siocled yn teimlo fel sbwng wrth ei gyffwrdd. Bydd y siocled yn parhau i goginio am rai munudau ar ol dod allan o'r popty.

Tynnwch y tun o'r popty a gosodwch ef ar resel i oeri. Gadewch i'r brownis siocled oeri'n gyfan gwbl cyn eu torri'n sgwariau. Cadwch y brownis mewn bocs sy'n selio a'u bwyta cyn pen 4 diwrnod.

CYNHWYSION

200g/70z siocled tywyll
10g/3.5oz menynd heb halen, medal iawn
250g/9oz siwgr mân
4 wy buarth mawr, wedi'u curo
1 llwyv de rhinflas fanila (vanilla essence)
60g/2oz blawd plaen
60g/2oz powdr coco



Apêl Madagascar 2018-19 – Paned a Chacen
Rhowch gynnig arni!

PRYNHAWN GWENER Y GROGLITH



Ifanc@Priordy

Menter Ieuenctid Cristnogol

*Mabolgampau
Dan Do Ysgolion Sul
a chlybiau
Cristnogol*

**Canolfan
Hamdden
Caerfyrddin
Mehefin 18**

**Oed Meithrin
hyd at
blwyddyn 6.**

**Canolfan
Hamdden
Rhydaman
Mehefin 26**

**Rowndiau terfynol y sir (gan
gynnwys blynyddoedd 7 - 13)
Canolfan Hamdden Caerfyrddin
Gorffennaf 10**

Dyddiad cau cofrestru ar gyfer y mabolgampau: Mai 31ain.

Dewch ynghyd i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc ac i fwyhau nosweithiau
o gystadlu a chymdeithasu. Dechrau am 6:00 y.h.

Ffartleni cofrestru i'w dychwelyd at:
Nigel Davies,
Llân Deg,
Llangynin,
San Cidr,
Caerfyrddin SA33 4TY

Rhif ffôn: (01994)230049. E-bost: mic@uwclub.net

Mae'n amser derbyn
enwau ar gyfer
Mabolgampau MIC
unwath eto!

Dyma'r manylion:

Oed cynradd (Meithrin i Flwyddyn 6)

Rownd 1 - nos Fawrth,
Mehefin 18, am 6 o'r
gloch, Canolfan
Hamdden Caerfyrddin.
Rownd derfynol - nos
Fercher, Gorffennaf 10
am 6 o'r gloch,
Canolfan Hamdden
Caerfyrddin


(Gwnewch yn siŵr bod y ddwy noson yn rhydd cyn rhoi
eich enw ymlaen)

Oed uwchradd (bl 11 i 13)

Rownd derfynol yn unig - nos Fercher, Gorffennaf
10 am 6 o'r gloch, Canolfan Hamdden Caerfyrddin

Os yw eich mab neu ferch am gystadlu, ENWAU
LLAWN (gan fod gennym sawl plentyn o'r un enw yn yr
Ysgol Sul!) BLWYDDYN YSGOL i Luned (nid Beti-
Wyn!) **lunedthomas@googlemail.com** erbyn Mai 24

I'ch dyddiadur.... 14 Gorffennaf



**Hwyl
fawr
tan y
tro nesaf**

Beti-Wyn



Dyddiadur yr	Ysgol Sul a	PIP
Mai 5	Ysgol Sul	PIP i aros yn yr Oedfa
Mai 12	Cwrdd Plant a Phobl Ifanc	PIP i arwain
Mai 19	Coginio!	PIP i aros yn yr Oedfa
Mai 26	Dim Ysgol Sul	Dim PIP
Mehefin 2	Ysgol Sul	PIP

PEN-BLWYDD HAPUS BETI-WYN!



50

50



50

50



ANRHYDEDDU DELME


Cafodd plac ei ddadorchuddio i gydnabod cyfraniad arbennig y seren rygbi, Delme Thomas, mewn seremoni arbennig yn ddiweddar ym Mancyfelin, ei bentref genedigol, gan Gymdeithas yr Hoelion Wyth.



Mae Delme yn un o ffyddloniaid Capel Bancyfelin a'n braint ni yn y Priorddy yw cael mwynhau'i gwmni yn ein hoedfaon o bryd i'w gilydd.

Ein llongyfarchiadau mawr iddo

LANSIO LLYFR



**Hanes Galwadau i'r
Weinidogaeth Gristnogol yng
Nghymru**

**Cyhoeddiadu'r Gair
£8.99**

**Nos Fercher 15 Mai 2019
Y Priorddy – 7pm**

**Cyfrol yn cynnwys hanes
galwad dros ugain o
weinidogion ac offeiriadon
i'r Weinidogaeth Gristnogol
yng Nghymru.**

**Mewn pennod ragarweiniol
mae Noel A. Davies yn
esbonio sail ddiwinyddol
'Galwad Gristnogol'**

**Yna ceir hanes galwad y
ddau olygydd, Beti-Wyn
James ac Aled Davies.**

**Croeso i chi ymuno â ni ar
yr achlysur arbennig hwn**

Gŵyl yr Orsedd Caerfyrddin Gorffennaf 2019



**Dathlu 200 mlynedd uno'r
Eisteddfod a Gorsedd y Beirdd**

Gweithgareddau'r Dathlu

1 Gorffennaf ymlaen	Arddangosfa'r Orsedd yn Llyfrgell Caerfyrddin
1-13 Gorffennaf	Cyflwyniadau Iolo Morgannwg ' <i>mewn cymeriad</i> ' yn y Llyfrgell a'r Atom i gydredeg â'r arddangosfa
Nos Fawrth 9 Gorffennaf am 6 yn y Llyfrgell	Agoriad swyddogol Arddangosfa'r Orsedd gan Is Ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Nos Fawrth, 9 Gorffennaf am 7.30 yn Y Llwyn Iorwg	Darlith gan y Dr. Geraint H. Jenkins, Aberystwyth ar 'Iolo Morganwg' Cadeirydd: Dr. Ioan Matthews
Nos Fercher 10 Gorffennaf am 7 yn Y Llwyn Iorwg	Noson y Dathlu i gynnwys dadorchuddio plac a meini'r Orsedd, anerchiad gan yr Archdderwydd, lansio cyfrol, adloniant, cyflwyniad Iolo Morganwg a bwffe. Mynediad trwy docyn £12
Nos Wener 12 Gorffennaf am 7, taith trwy'r dref i'r Llwyn Iorwg	'Cerddi'n Cerdded' a 'Noson Dafarn' Taith gerdd a chân o Feini'r Orsedd yn y parc i'r Llwyn Iorwg gyda 'noson dafarn' yng nghwmni Gwilym Rhys Bowen. Mynediad trwy 'snoden' £7
Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf trwy'r dydd ym Mharc Myrddin.	Gŵyl Ganol Dre gyda'r orsedd fel thema Trefnir gan Fenter Iaith Gorllewin Sir Caerfyrddin

Yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg adeg Eisteddfod Dyfed ar 10 Gorffennaf 1819 yr unwyd yr Eisteddfod gyda Gorsedd y Beirdd dan arweiniad Iolo Morganwg

AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



OEDFA GYMUNED SUL Y PASG YM MANCYFELIN



NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2019



Eleni, mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru yn 97 mlwydd oed.

Er 1922 mae'r broses o anfon neges ar ran bobl ifanc Cymru i bobl ifanc yng ngweddill y byd wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol.

Rhoddwyd y cyfrifoldeb ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf i Urdd Gobaith Cymru gyhoeddi Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn flynyddol ar ddydd Ewyllys Dda, **18 Mai**, sef dyddiad y gynhadledd heddwch gyntaf yn yr Hâg yn 1899.

Ers hynny mae grwpiau o bobl ifanc wedi derbyn y cyfrifoldeb i greu'r neges, ei pherfformio ynghyd â'i chyfieithu i nifer fawr o ieithoedd i'w dosbarthu i bobl ifanc y byd.

Lluniwyd y Neges eleni gan bobl ifanc sy'n aelodau o Fwrdd Syr IfanC a Chynllun Cymraeg Bob Dydd.

Daeth y criw at ei gilydd i drafod y thema 'Llais' mewn gweithdy arbennig, gan benderfynu eu bod am ddefnyddio'r cyfle eleni i godi eu Llais a sefyll gyda plant a phobl ifanc yng Nghymru ac ar draws y byd sydd yn dioddef o drais - trais cyllyll, trais gynnu a thrais drwy ryfel.

Bwrdd Syr IfanC

Bwrdd Cenedlaethol i aelodau'r Urdd ydy Bwrdd Syr IfanC. Mae'n trafod materion sy'n poeni pobl ifanc yn eu hardaloedd ac yn genedlaethol, ynghyd â chyfrannuat weledigaeth yr Urdd.

Rhennir y Neges gyda'r byd ben bore ar **17 Mai** eleni. Bydd ar y cyfryngau cymdeithasol, ar wefan yr Urdd ac ar e-bost. Bydd hefyd fersiwn ffilm fer a phoster a phecyn addysg yn cynnwys gwasanaethau cynradd ac uwchradd i'w defnyddio mewn ysgolion neu ysgolion Sul

NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2019

Llais

Mae 'da ni'r hawl i beidio cael niwed, a'r hawl i ofal a diogelwch

Mae 'da ni'r hawl i roi ein barn ac i rywun wrando arnom ni

Os oes rhyfel, mae 'da ni'r hawl i fod yn ddiogel a pheidio cael ein gorfodi i fod yn filwyr

Mae gyda ni'r pŵer i godi'n llais, â'r hawl i gael ein clywed

Oes rhywun yn gwrando?

Oes rhywun yn gweithredu?

Ein HARF ni yw ein llais

Arf i weiddi'n uchel a cael ein clywed

Arf i brotestio

Arf i bleidleisio

Arf i gysuro eraill

Arf i fynegi ein hunain drwy gelfyddyd

Arf i'n helpu ni ddelio gyda thrais

Arf i gefnogi pobl sy'n dioddef

Arf i estyn neges o obaith, neges o heddwch ac ewyllys da i blant a phobl ifanc y byd -

I blant a phobl ifanc sy'n dioddef oherwydd rhyfel fel yn yr Yemen

Rydyn ni'n gwrando

I blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ofn o ymosodiadau gyda chyllyll fel yn Llundain

Rydyn ni'n uno gyda chi

I blant a phobl ifanc sy'n sefyll dros eu hawl i addysg heb yr ofn o gael eu saethu fel yn yr Unol Daleithiau

Rydyn ni'n clywed

I blant a phobl ifanc sy'n cael eu gorfodi i ymladd mewn rhyfeloedd yn lle cael addysg

Rydyn ni'n codi ein llais, ein harf ni

Mae trais yn annog trais, fel mae cariad yn annog cariad, a chwerthin yn annog chwerthin

Ni yw'r dyfodol. Y genhedlaeth ifanc fwyaf mewn hanes

Dy'n ni HEB anghofio

Mae plant a phobl ifanc Cymru yn sefyll gyda'n gilydd a gyda phlant a phobl ifanc y byd

Yn galw ar y byd i wrando ac i weithredu yn erbyn trais a rhyfel

Ac i ddweud DIGON.

Ein harf ni yw ein LLAIS, dewch gyda ni, blant a phobl ifanc y byd a sefwch gyda ni.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

12-18 Mai 2019

Bydd miloedd o bobl yng Nghymru a gweddill Prydain eleni'n cymryd rhan mewn digwyddiadau i helpu gwaith *Cymorth Cristnogol* yn Sierra Leone a gwledydd eraill o amgylch y byd ble mae pobl angen help.



CASGLU YN Y DREF



Bydd Cymorth Cristnogol yn casglu o gwmpas y dref ar
Ddydd Mercher, 15 Mai rhwng 10 a 2.00 o'r gloch.

Mae mawr angen gwirfoddolwyr i gasglu. Yn ôl yr arfer,
canolfan weinyddu'r casglu fydd Capel y Wesleaid yn

Stryd Ioan (y tu ôl i Siop Boots). Cysylltwch â Swyddfa Cymorth Cristnogol os ydych
yn gallu helpu, os gwelwch yn dda.



Credwn mewn byw cyn marw

WRTH GYFRANNU MEWN AMLENNI


Mae'n bwysig i drethdalwyr ysgrifennu eu henwau ar yr amlenni er
mwyn cael arian ychwanegol na fyddai Cymorth Cristnogol yn ei
dderbyn ar wahân i hynny.

Gwefan : www.cymorthcristnogol.org.uk Gwefan blant: www.globalgang.org.uk
Caerdydd: 029 2084 4646 Bangor: 01248 353574 Caerfyrddin: 01267 237257


**OS YDYCH CHI'N GALLU HELPU I GASGLU O DŶ I DŶ,
CYSYLLTWCH Â'N SWYDDOGION CYMORTH CRISTNOGOL
RHIAN EVANS AC EIRLYS JONES
OS GWELWCH YN DDA**

Cymorth  Cristnogol

Mae deg merch yn marw wrth roi genedigaeth pob dydd yn Sierra Leone. Dyma'r lle peryclaf yn y byd i ddod yn fam. Mae diffyg arian yn y wlad i sicrhau'r gwasanaethau iechyd mwyaf sylfaenol – pethau rydych chi a fi yn eu cymryd yn ganiataol.



Gyda llawenydd rhown ddiolch am RADA partner Cymorth Cristnogol, Yn gwneud gwahaniaeth ym mywyd miloedd o ferched yn Sierra Leone, Yn cyflenwi hyfforddiant, gofal iechyd ac yn helpu merched i godi eu llais.




Bydd Amlen Cymorth Cristnogol ym mhob copi o Bapur Priordy'r mis hwn

GAIR O DDIOLCH

oddi wrth

Ysgrifennydd Pwyllgor Llyfrau Llafar Cymru



Mae'n bleser gennyf ar ran Llyfrau Llafar Cymru i fynegi ein diolch diffuant iawn am y cyfraniad godidog o £1000 a dderbyniwyd yn ddiweddar oddi wrth eglwys y Priordy, sef yr elw sylweddol a wnaed o'r Gyngerdd 'Croeshoeliad'.

Mawr yw'n gwerthfawrogiad i'r eglwys am drefnu'r Gyngerdd a bod yr elw i'w gyflwyno tuag at weithgareddau Llyfrau Llafar. Medraf eich sicrhau y caiff y swm ardderchog hwn ei ddefnyddio i'n cynorthwyo i barhau gyda'n hymdrechion i roi pleser a diddanwch i'r bobl hynny sy'n cael eu hamddifadu o ddarllen fel cynt, oherwydd diffyg eu golygon. Mae pawb sy'n derbyn ein disgiau yn hynod ddiolchgar am y ddarpariaeth a gyflawnir trwy'r gwasanaeth hwn am fod unigolion, mudiadau ac eglwysi fel Y Priordy yn ein cefnogi gyda rhoddion hael.

Gyda llawer o ddiolch a phob dymuniad da i chi fel gweinidog ac aelodau wrth dystio i'r Un roddodd esiamp! mor arbennig inni o'r modd y dylem gofio'r anghenus.

Yn ddiffuant iawn

Wynn Vittle



CRISTION

Cyhoeddiad deufisol – ar ei newydd wedd!

Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas



Y GYMDEITHAS YMWELIAD Â'R MOSG

Mae'r gymdeithas o'n cwmpas wedi newid i fod yn llawer mwy amrywiol nag a fu gyda nifer o'n cymdogion hyd yn oed yn dilyn ffordd o fyw wahanol o ran arferion a chrefydd. Yn wir, rydym yn byw mewn cymdeithas amlffydd ers degawdau erbyn hyn.



Ar nos Lun 8 Ebrill cawsom y fraint o ymweld â Mosg Caerfyrddin sef tŷ addoli'r Mwslim. Roedd nifer fawr ohonom heb fod mewn Mosg erioed ac yn wir roedd yn ymweliad pleserus ac addysgiadol iawn. Saif y Mosg yn Stryd y Prior ar hen safle Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin. Chwe blynedd yn ôl



dechreuwyd ar y gwaith o'i drawsnewid i fod yn addoldy ar gyfer y boblogaeth Mwslemaidd yn nhre Caerfyrddin a'r cylch.

Cawsom ein croesawu yn gynnes iawn gan yr Imam sef Kaldun gŵr hynaws dros ben. Daeth yma o Irac yn 2014. Penderfynodd Kaldun roi'r gorau i'w waith fel meddyg yn Ysbyty Glangwili a

dilyn swydd hollol wahanol i wasanaethu deiliaid y ffydd Fwslemaidd. Mae yn y swydd hon ers blwyddyn a hanner bellach

Mae'r Mosg yn lle prysur iawn a nifer yn mynd yno'n ddyddiol i addoli. Cynhelir Ysgol Sul i blant rhwng 5 a 12 oed. Ynghyd â bod yn addoldy, mae hefyd yn ganolfan pwysig lle gall mewnfudwyr ddysgu Saesneg a chwrdd yn



gymdeithasol. Mae'r Mosg yn cydfodoli'n arbennig o dda â'r gymdeithas leol ynghyd ag eglwysi eraill yn y dre. a thu hwnt, gyda nifer ohonynt yn ymweld yn gyson â'r lle.



Pwysleisiodd Kaldun fod y plant yn cael eu dysgu i fod yn barchus ac i gydweithio a chydfyw'n hapus ac yn heddychlon gan mai dyna yw bwrddwn ffydd Islam. Yn wir, dywedodd ei fod yn ddyletswydd ar bawb sy'n dilyn y ffydd i

integreiddio ac anogir pawb i ffurfio cadwyni o gyfeillgarwch ac ymddiriedolaeth

Cyn ymadael cawsom ein tywys o amgylch yr adeilad hardd a chyfle i ofyn cwestiynau.

Bu'n ymweliad diddorol a phleserus iawn ac roedd gwrando ar Kaldun yn sôn am barch a chariad at bawb ar brydiau'n ysbrydoledig. A beth well i orffen ymweliad mor ddifyr na phryd o fwyd hyfryd yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg!



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY
BORE IAU 23 Mai 2019

*Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11
Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys*



**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD
SIR GAERFYRDDIN 2021**

Nos Fercher 8 Mai 2019 – 7 o'r gloch - Neuadd San Pedr

**Cyfarfod Sefydlu Pwyllgor Apêl Caerfyrddin a'r Cylch
(Caerfyrddin, Llangynnwr, Tre Ioan a Llanllwch, Trefechan
a Ffynnon-ddrain)**



I hybu a chodi arian

**Bydd eitemau gan blant / ieuentid
yr ysgolion a'r adran**



OPRA CYMU

yn cyflwyno

FIDELIO

gan Beethoven

Fersiwn newydd Gymraeg gan

Mererid Hopwood

Nos Fawrth 7 Mai 2019 – 7.30 - Theatr y

Lyric

Tocynnau: ☎ 0845 226 3510



MIC

MABOLGAMPAU DAN DO



18 Mehefin 2019: Mabolgampau Gorllewin Y Sir.

26 Mehefin 2019: Mabolgampau Dwyrain Y Sir

10 Gorffennaf 2019: Mabolgampau (Rowndiau Terfynol Y Sir)

GWASANAETH HAF CARTREF PLAS Y DDERWEN

Bore Gwener – 21 Mehefin 2019– 11 o'r gloch

gyda'n

Gweinidog

Croeso i bawb



CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN

CWRDD CHWARTER

Dydd Iau, 9 Mai 2019 – Y Priordy

4.00 a 7.00

**Anerchiad gan, Y Parchedig Jill-Hayley-Harris, Llywydd
yr Undeb, yng nghyfarfod yr hwyr**

BORE COFFI APÊL MADAGASGAR



Mis Ebrill	Darlleniad
Wythnos 1	Ioan 21: 1-19
Wythnos 2	Ioan 10: 22-30
Wythnos 3	Ioan 13: 31-35
Wythnos 4	Ioan 14: 23-29

Cymdeithas Ddiwylliadol Capeli Heol Awst a Smyrna

Nos Fawrth 7 Mai 2019 -7.00 - Festri Heol Awst.

Robat Powel

Yn siarad am ei daith i Ynys Madagascar.

Te a chacennau i ddilyn.

Casgliad at Apêl Madagascar.

Croeso cynnes i bawb




CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 17 Gorffennaf 2019 am 7 yn y Festri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS
YN Y CYNTEDD**

Beth am droi at: cyfundeb.com?

GWASANAETH PASG CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

Tristwch y Groes yn troi'n
Fuddugoliaeth ar y Trydydd
Dydd gydag Atgyfodiad Iesu'n
dod â gobaith a bywyd
newydd i bob un ohonom
oedd bwrddwn neges ein

Gweinidog yng Ngwasanaeth y Pasg ar Ddydd Gwener 12 Ebrill
2019 yng Nghartref Plas-y-dderwen.



Roedd lolfar cartref yn gyfforddus lawn rhwng y trigolion, eu
perthnasau, a ffrindiau o wahanol gapeli'r cylch, i glywed ein
Gweinidog yn darllen darnau o'r Beibl am dristwch a llawenydd yr
Ŵyl ac yn esbonio y dylem edrych ar y Groes yng ngoleuni
atgyfodiad buddugoliaethus ein Gwaredwr.

Roedd hwyl ar y canu a diolch i Mai Thomas am gyfeilio ar yr
organ.

Mwynhawyd paned a sgwrs â'n gilydd cyn
ymadael – diolch i Martha Denham a staff
eraill y Cartref.



Doedd hi ddim yn fore hawdd i'r trigolion
na'r staff a hwythau newydd golli ffrind
annwyl yn Martin, un a fu'n byw yn eu plith am gyfnod o ddeng
mlynedd. Diolch felly am neges y Pasg a gwybod bod Duw'n rhoi
gobaith newydd i ni drwy'n sicrhau nad yw grymoedd tywyllwch a
marwolaeth, er mor erchyll ydyn nhw, yn cael y gair olaf. Mae'r
Groes yn wag a Iesu'n fyw!

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



TUDALEN BLAEN

Rheswm Rosan Saunders dros ddewis yr emyn *Dyma gariad fel y moroedd...*

'Plant y Mans yw'r gwaethaf' - dyna mae rhai'n ei ddweud yntye? A lle ron i yn y cwestiwn, roedd yn wir!! Druan o mam a dad, rhoies i amser caled iddyn nhw pan o'n i'n byw ar yr aelwyd, Rebel? Peidiwch â sôn! Anaml iawn yn gwrando, yn gwneud pethe na ddylen i a wastad mewn trwbl.



Yn syth wedi i fi adael y nyth, fe droies i 'nghefn ar Dduw, y capel a'r iaith Gymraeg am ddeng mlynedd, hyd nes y ganwyd fy merch hynaf, ac yna fe gododd yr awydd ynof i fynd â Lowri i'r Ysgol Sul a dechrau mynychu capel Saron yn Gendros, Abertawe.



Un bore Sul cyn y Pasg, thema'r gwasanaeth oedd cariad Duw, ac wrth ganu'r emyn gan **Gwilym Hiraethog** *'Dyma gariad fel y moroedd, tosturiaethau fel y lli: T'wysog bywyd pur yn marw, marw i brynu'n bywyd ni.'* newidiodd fy mywyd yn llwyr, wrth i'r Ysbryd Glân weithio yn fy nghalon nes i mi sylweddoli gymaint roedd Duw yn fy ngharu, a bod Iesu wedi marw drosod FI, er fy holl feiau a gwrthryfela.

Rai wythnosau'n ddiweddarach, wedi lot fawr o frwydro yn erbyn galwad Duw, rhoies fy mywyd i Iesu, tri deg un o flynyddau'n ôl erbyn hyn.

Dyma'r emyn felly a ddylanwadodd gymaint ar fy mywyd, ac rwyf mor ddiolchgar i Dduw am ei gariad a'i ras, ei faddeuant a'i gynhaliaeth ar hyd y blynyddoedd, wrth i fi droedio taith anwadal y bywyd hwn:

***Dyma gariad nad â'n angof
Tra bo nefoedd wen yn bod.***

NEWYDDION SALEM, CAERNARFON

Roedd mis Ebrill yn fis prysur yn Salem:

Cyfundeb Gogledd Arfon

Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd yn Emaus, Bangor, rhoddwyd sylw i faterion y Cyfundeb ac yna, cafwyd Adroddiad a thrafodaeth yn deillio o Gyngor Gwanwyn Undeb yr Annibynwyr dan arweiniad y Parchedig Dylan Parry.

Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi gan aelodau'r eglwys fore Sadwrn cyntaf y mis a rhannwyd yr elw rhwng Cronfa Adeiladau Salem a Gisda (elusen i bobl ifanc ddigartref).

Casgliad at Apêl Madagascar

Anfonwyd taflen yn sôn am y 4 prosiect sydd ar waith ac amlen cyfrannu at bob teulu.

Gweithgareddau'r Pasg

Cynhaliwyd oedfa undebol nos lau Cablyd a gwasanaeth cymun undebol fore



Gwener y Groglith gyda Gorymdaith i ddilyn. Yna, nos Sul, cynhaliwyd oedfa gymun yn Eglwys Llanbeblig. Nos Wener y Groglith, cafwyd myfyrdod yn Salem gan rai o bobl ifanc yr eglwys. Ail-ddechreuodd grŵp Gobaith fore Sul y Pasg

gydag aelodau newydd. Canwyd emyn cyfarwydd ar dôn newydd a gyfansoddwyd gan Mererid Mair.



Pererindod yr Ofalaeth Dydd Sul, 23 Mehefin 2019



Bws yn gadael

Bancfelin Cana	9.15 9.25	Heol Awst Heol y Priordy	9.35 9.45
-------------------	--------------	-----------------------------	--------------

Coffi am 10.30 - Amgueddfa Wlân Dre-fach Felindre

Cinio am 12.15 yng Nghenarth - Dewch â phecyn bwyd



Ymuno yn yr oedfa yng Nghapel Brynhiwgaleid
am 2 o'r gloch

Pregethir gan Y Parchedig John Gwilym Jones

Paned yn y festri wedi'r oedfa

Aberaeron am 4 o'r gloch

Swper (cinio dydd Sul) yn Ffostrasol am 6 o'r gloch



Pris y dydd £21

Enwau ar y daflen yn y cyntedd cyn gynted â phosib,
os gwelwch yn dda

Croeso i hawb!

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Ann a Nigel Thomas ar golli mam Ann, sef Heulwen Hawker, Ystradgynlais ar 11 Ebrill 2019. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu colled.

Cofwn hefyd am ddau deulu yn ein Gofalaeth sy'n dwyn cyswllt agos â ni yny Priordy. Bu farw Peter Harris, sef tad Joanne Richards, Ysgrifennydd Capel Bancyfelin, ar 30 Mawrth 2019 yn Ysbyty Glangwili. Rydym yn meddwl am Eira, ei briod, Joanne a Julie a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

A chollwyd Haydn Thomas (Haydn Sheaf), blaenor selog ym Mancyfelin dros flynyddoedd lawer ar 2 Ebrill 2019. Cofiwn am Elizabeth, ei briod, Winsor a Richard, y meibion, a gweddi y teulu yn eu galar.

GAIR O DDIOLCH

Hoffem ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod yr wythnosau diwethaf ac i bawb a fynychodd angladd Peter. Diolch yn arbennig i Beti-Wyn am oedfa arbennig ac am ei chefnogaeth dros y cyfnod anodd hwn.

Eira, Joanne, Julie a'r teulu

DYFODOL I'R IAITH

yn cynnal

Cyfarfod Cyhoeddus

Dydd Sadwrn 25 Mai 2019 –Yr Egin 11.00-12.30

Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050: Cyfle i holi barn ein gwleidyddion ar sut orau i fwrw ymlaen â'r gwaith hanfodol hwn. Y Panel Trafod yn cynnwys Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg ac Adam Price AC, Arweinydd Plaid Cymru, dan gadeiryddiaeth y Prifardd, Mererid Hopwood

**1000
DYFODOL**

COFIO CENHADWR MADAGASGAR

J T JONES FFOS-Y-GASEG (1889-1952)

yng nghwmni'i fab

Philip Jones, Porth Tywyn

Dydd Sul 12 Mai 2019 am 5 - Pant-Teg, Felin-wen

Croeso cynnes i bawb

Y DDIWEDDAR ROSALIND WILLIAMS

Bu farw Ros yn dawel ar 11 Ebrill 2019 yn Ysbyty Glangwili wedi tostrwydd a wynebodd yn ddewr a dirwgnach dros gyfnod hir o flynyddoedd. Daeth atom i Gaerfyrddin o Gaerdydd 5 mlynedd yn ôl er mwyn bod yn nes at y teulu a buan yr ymagartrefodd yn ein plith yn Y Priordy. Roedd bywyd yr eglwys yn bwysig iawn iddi, a bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Y Crwys, Caerdydd gan gyflawni gwaith godidog yno. Yn ferch y Mans, fe'i ganwyd ym Maesteg lle roedd ei thad, Y Parchedig J Melville Jones, yn weinidog ar gapel Tabor. A hithau'n ferch fach fe dderbyniodd ei thad alwad i fod yn Weinidog ar gapel Bwlchgwyt Tregaron a Blaencaron.

Rhoddodd oes o wasanaeth fel Athrawes Gymraeg mewn amryw o gylchoedd ac ymgartrefu yng Nghaerdydd wedi priodi Gareth Williams, gan ddod yn rhan o fywyd Cymraeg byrlymus y brifddinas ac ymdaflu iddo, yn benodol i holl weithgareddau Capel y Crwys. Bu'n ffyddlon a theyrngar yno ac roedd bywyd y capel yn gwbl ganolog i'w bywyd hithau a'i theulu'n grefyddol a chymdeithasol. Bu'n hynod o ofalus o Gareth dros gyfnod hir ei salwch, ac yn fam ardderchog i Geraint ac Aled, yn fam yng nghyfraith barchus i Nia a Llinos, yn fam-gu arbennig i Lleucu, Gruffydd, Miriam, Olwen a Gwydion ac yn chwaer ffyddlon i Wyn.

Daeth cynulleidfa niferus i Gapel Y Priordy fore lau 18 Ebrill 2019 i oedfa i ddiolch am ei bywyd. Cynhaliwyd ail oedfa yr un diwrnod yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen, Caerdydd, lle daeth cynulleidfa fawr arall ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddi. Gwasanaethwyd yn y ddwy oedfa gan ei gweinidog, a gwerthfawrogwyd yn fawr deyrnged hyfryd Y Parchedig Glyn Tudwal Jones, cyn weinidog Capel y Crwys, a ddarllenwyd ar ei ran gan Beti-Wyn yn yr Amlosgfa.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Geraint ac Aled a'u teuluoedd, a hefyd Wynn, gan ddiolch iddynt am fod mor ofalus o Ros bob amser.

Coffa da am un o blant ffyddlon Duw.

Beti-Wyn



EIN braint yn yr Oedfa Gymun ar Sul y Pasg oedd derbyn aelod newydd, sef Huw Morgans sy'n ŵr i Carys a thad i Tomos Huw, Ifan Noa a Cadi Fflur, aelodau gwerthfawr yn ein Hysgol Sul. Croeso mawr Huw!

Dethlir Ffŵl Ebrill yng Nghymru, fel mewn nifer o wledydd, ar fore **1 Ebrill** bob blwyddyn. Tybed a gawsoch chi'ch dal eleni? Wel, ar **Heno** ar **S4C** ar y diwrnod mawr bu Sulwyn Thomas yn sôn fel y bu'r Eisteddfod Genedlaethol yn destun un o'i jôcs mwyaf enwog ar **Stondin Sulwyn**. Cyhoeddodd ar y rhaglen ar 1 Ebrill 1985 y byddai'r Eisteddfod yn cael ei chynnal yn America ym 1991. Fel y gallwch ddychmygu, dyma'r ffôn yn dechrau canu a phethau'n mynd yn hollol wyllt!

Roedd camerâu **Heno**'n bresennol pan ddadorchuddiwyd plac glas i Delme Thomas, un o sêr y byd rygbi, gan **Gymdeithas yr Hoelion Wyth** yn ei bentref genedigol ym Mancyfelin. Bu cyfweiliad â Lyn Jones (Bancyfelin) a'r Gweinidog yn ystod y rhaglen. Anrhydedd arbennig i ŵr arbennig.

Bu'r Dr Llinos Roberts ar **Raglen Aled Hughes** ar **Radio Cymru** yn sôn am lyfr newydd gan **Matt Richtel**, **An Elegant Defence** sy'n trafod ein system imiwnedd a hylendid a glanweithdra ac ati. Roedd hi'n gysur gwybod nad oes angen i ni orbyderu am ychydig o faw a mân germau sy'n gallu helpu yn y pen draw i ddatblygu'n system imiwnedd i ymladd yn erbyn germau peryglus.

Da oedd gweld Osian Hayes yng Nghôr Ysgol Teilo Sant a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth **Côr Cymru Cynradd 2019**. Trefnwyd y gystadleuaeth gan gwmni **Rondo** a darlledwyd y rownd derfynol a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar **S4C**. Ac un o'r offerynwyr yn cyfeilio i'r Côr ar y gitâr oedd ein Gareth Gravell ni.

Yn ystod mis codi ymwybyddiaeth o beryglon alcohol bu Wyn Tegryn Evans a'r Dr Llinos Roberts ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn trafod agweddau ar y pwnc pwysig hwn.

Cynhaliwyd digwyddiad arbennig yn Neuadd, y Senedd ym Mae Caerdydd, **sef Lloches yn y Senedd 2019**, er mwyn rhoi cyfle i ddathlu'r cyfraniad mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ei wneud o fewn cymunedau Cymreig a'r croeso a gynigir i geiswyr lloches gan gymunedau Cymru. Bu'n gyfle hefyd i leisiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael eu clywed wrth galon pŵer Cymru. Yn ogystal, roedd y digwyddiad yn gyfrwng i archwilio pa mor bell mae Cymru wedi teithio at ddod yn Genedl o Loches ac i Aelodau'r



Cynulliad glywed yn uniongyrchol gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru. Un a fu'n siarad yn y digwyddiad oedd ein Ahmed ni. Roedd yn fawr ei ganmoliaeth o'r croeso a'r gefnogaeth mae'n eu cael gennym ni yma yng Nghaerfyrddin.

Bu Elinor Wyn Reynolds yn adolygu'r papurau ar raglen **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru**. A bu Beti-Wyn ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** pan oedd ar ei ffordd i Flaenau Ffestiniog yn sôn am ei menter ar y Sip. Bu wedyn ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn sôn am ei phrofiad wedi mentro a chyflawni'r gamp a derbyniodd dusw o flodau i ddatlu'r phen-blwydd.

Ar fore Llun y Pasg, Rebecca Hayes fu'n cyflwyno **Bore Cothi** ar **Radio Cymru**.



Bu Elin Llwyd ar **Raglen Aled Hughes** (ond **Jennifer Jones** oedd yn cyflwyno) yn trafod ei gwaith gyda'r Cyngor Prydeinig. Mae'n teithio i Zimbabwe a Rwanda i addysgu canu i ddisgyblion a hyfforddi athrawon i ddefnyddio canu er mwyn cyflwyno pynciau'r

cwricwlwm. Clywodd y gwrandawyr ferch o Zimbabwe'n canu '*Hen Fenyw Fach Cydweli*'. Buodd Elin yn sôn hefyd am ei thaith i Abu Dhabi fel aelod o 'CÔR' (Côr Osian Rowlands) i ganu mewn perfformiad o Tosca gyda Bryn Terfel. Trafodwyd ei bod hi a Huw Ffowcs wedi sefydlu ABC 5 mlynedd yn ôl a'u bod nhw nawr wedi ehagu i'r Fro ac yn mynd o nerth i nerth!!

Fe welwch luniau'r Bore Coffi i godi arian at Apêl Madagasgar yn y Papur. Bu'n llwyddiant mawr. Diolch i Elinor Wyn, Eleri Thomas, Alison Parsons ac yn arbennig i PIP a phawb a fu'n helpu.

FE ddymunwyd yn dda i Beti-Wyn yn ein rhifyn diwethaf wrth iddi edrych ymlaen at ei phen-blwydd. Wel, bu dau aelod arall wrthi'n dathlu pen-blwydd arbennig y mis diwethaf hefyd (ffigur crwn!), sef Jayne Jones a Betsan James. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonynt!



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mehefin i'n
Gweinidog neu Alun Charles**




DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Edward Jones (Cana), Elin Wyn a Sara Llwyd y lluniau'r mis hwn

**YN DYMUNO CYFAMODI?
DR HUW MICHAEL
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI
Croeso i chi gysylltu ag e!**





Y SULIADUR



Mai	5	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	12	<i>Bore</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog	
	19	<i>Bore P'nawn</i>	Ein Gweinidog Yn ymuno â Chyrrddau Blynnyddol Heol Awst am 3 gyda'r Parchedig Alun Tudur	
	26	<i>Bore P'nawn</i>	Alun Lenny Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gydag Alun Lenny	

Mehefin	2	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
<i>Sul y Pentecost</i>	9	<i>Bore Hwyr</i>	Sul y Maer gyda'n Gweinidog yn Heol Awst am 10 Cwrdd a The Amnest yn y Tabernacl am 5	
<i>Sul y Tadau</i>	16	<i>Bore</i>	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	23	<i>Drwy'r dydd</i>	Pererindod yr Ofalaeth. Manylion y tu mewn	
	30	<i>Bore P'nawn</i>	Hefin Wyn Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda Hefin Wyn Gŵyl Hirdydd Haf ym Mharc y Dref am 4.30	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD- Oedfa Deulu								
Mai				Mehefin				
5	12	19	26	2	9	16	23	30
✓	CP PIP yn Arwain	✓	✓	✓ PIP	-	OD	-	-

Y GYMDEITHAS Nos Lun 13 Mai 2019 am 7 Siaradwr Gwadd Llyr Huws Gruffydd AC	
---	---